Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom **nos Lun, 11 Ionawr 2021** am **7:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr John Wynne Hughes ac Ian Lewney.

2 ETHOL CADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd fod y Cynghorydd Heather Williams yn parhau fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu am weddill y flwyddyn ddinesig.
PENDERFYNWYD: *yn unfrydol ethol y Cynghorydd Heather Williams yn Gadeirydd am weddill y flwyddyn ddinesig.*

3. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorydd Gavin Harris ddatgan buddiant yn y cais cynllunio yn ymwneud â chyn safle Wynnstay Stores ar Heol y Parc am ei fod yn adnabod yr ymgeisydd fel cwsmer ei fusnes.

4. CYLCH GWAITH

Adolygodd yr Aelodau Gylch Gwaith y Pwyllgor. Awgrymwyd y dylid dangos dyddiad mabwysiadu a dyddiad yr adolygiad nesaf yn nhroednodyn y dudalen yn cynnwys y Cylch Gwaith yn ogystal ag ar y dudalen flaen.
PENDERFYNWYD: *mabwysiadu Cylch Gwaith y Pwyllgor.*

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020 yn gywir, yn ddarostyngedig i ddiwygio'r fersiwn Saesneg i ddangos fod y penderfyniad ynghylch gwaith ar god yn Y Dalar, Ffordd Cae Glas, wedi'i ganiatáu.

6. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

7. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc fod y penderfyniadau cynllunio a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych ers y cyfarfod blaenorol fel a ganlyn.
02/2020/0822 - Coed y Bryn, Bryn Goodman, Rhuthun – Torri un goeden ffawydden gopr sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed 126/7/1993 – Caniatawyd
02/2020/0854 - 23 Stryd Clwyd, Rhuthun – Newid defnydd o siop (Defnydd Dosbarth A1) i swyddfa cyfreithiwr (Defnydd Dosbarth A2) – Caniatawyd
02/2020/0855 - 23 Clwyd Street, Rhuthun – Dangos arwyddion/hysbysebion yng nghyswllt y swyddfa cyfreithwyr – Caniatawyd
02/2020/0845 – Ty'n y Wern, Ffordd Corwen, Rhuthun – Adeiladu adeilad da byw amaethyddol – Caniatawyd
02/2020/0819 - 40 Bro Deg, Rhuthun – Adeiladu estyniad unllawr ar ochr yr annedd a gwaith cysylltiedig – Caniatawyd

8. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau isod.*
02/2020/1008 - Stanley House, Stryd Llanrhydd, Rhuthun
Gwaith trwsio allanol, adnewyddu ffenestri a thrwsio rendr wedi'i dioddef difrod (cais Adeilad Rhestredig)

02/2020/0931 – Clwb Pel-droed Rhuthun, Caeau Chwarae Coffa, Ffordd Parc y Dre, Rhuthun

Gosod llifoleuadau

Gydag amod yn nodi'r oriau y caniateir defnyddio'r goleuadau.

PENDERFYNWYD: *gwrthwynebu'r cais isod:*

02/2020/0989 – Cyn Siop Wynnstay, Heol y Parc, Rhuthun

Amrywio amod rhif 7 caniatâd cynllunio cyfeirnod 02/2020/0251 i ganiatáu defnyddio peiriannau sy'n creu sŵn rhwng 0800 - 17.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener a 08.00 - 12.30 ar ddydd Sadwrn.

Roedd y Pwyllgor yn erbyn caniatáu amrywio'r amod gan y byddai sŵn y peiriannau'n creu tarfiad a fyddai'n niweidiol i amwynder trigolion cyfagos.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 8 Chwefror 2021, am 7.45pm.*